SFJEF201

# Archwilio ymddygiad cyflawnwyr a’u hagweddau ynghylch eu cam-drin domestig a’u trais rhywiol

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud ag archwilio ymddygiad ac agweddau cyflawnwyr unigol cam-drin domestig neu drais rhywiol, gyda’r nod o’u hannog i newid eu hymddygiad. Mae’n cynnwys eich gallu i ddarparu cymorth ac anogaeth ar gyfer newid, lle bernir bod cyfle gwirioneddol i’r cyflawnydd ddiwygio’i ymddygiad.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cyfathrebu â chyflawnwyr mewn ffyrdd sy'n briodol i'w hanghenion a'u galluoedd
2. gweithio gyda chyflawnwyr i archwilio'u hymddygiad a'u hagweddau sy'n dylanwadu ar eu camdriniaeth pobl eraill, gan gynnwys:
   • annog cyflawnwyr i adnabod camdriniaeth a'i chanlyniadau
   • effaith bosibl ac effaith go iawn eu hymddygiad arnynt eu hunain, eu dioddefwyr a phobl eraill sy'n arwyddocaol iddynt
   • ymwybyddiaeth o effeithiau grym a rheolaeth dros eu dioddefwr
   • gwadu, lleihau neu gyfiawnhau eu hymddygiad camdriniol
   • eu hagwedd tuag at eu hymddygiad camdriniol
   • agweddau ar eu hymddygiad sy'n eu pryderu nhw ac yn pryderu pobl eraill
3. cynnig gwybodaeth a chyngor i gyflawnwyr sy'n hyrwyddo manteision newid cadarnhaol yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
4. gyda chyflawnwyr, archwilio sut y gallant fynd i'r afael â'r agweddau camdriniol ar eu hymddygiad mewn ffyrdd sy'n annog perchnogaeth
5. gyda chyflawnwyr, archwilio goblygiadau newid eu hymddygiad, gan gynnwys:
   • agweddau ar eu hymddygiad sy'n peri pryder iddyn nhw ac i bobl eraill
   • blaenoriaethau cyflawnwyr eu hunain o ran eu hymddygiad
   • eu symbyliad i newid
   • goblygiadau os na fydd newidiadau
6. gweithio gyda chyflawnwyr i wneud dewisiadau gwybodus am opsiynau ar gyfer newid, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
7. esbonio wrth gyflawnwyr y cymorth sydd ar gael iddynt, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
8. cyfleu gwybodaeth berthnasol i bartïon awdurdodedig yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
9. cynnal cofnodion yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion cyfreithiol, sefydliadol a pholisi sy'n berthnasol i'ch rôl chi, i rôl pobl eraill yn eich sefydliad ac i'r gweithgareddau sy'n cael eu cyflawni.
2. y canllawiau, y polisïau a'r gweithdrefnau lleol a chenedlaethol perthnasol sydd ar gael a sut a phryd y dylid troi atynt
3. yr ystod o asiantaethau a gwasanaethau y gallech weithio gyda nhw
4. rôl, amcanion, cylch gwaith a gwasanaethau eich sefydliad ar gyfer mynd i'r afael â cham-drin domestig neu drais rhywiol
5. cyfyngiadau eich awdurdod, eich cyfrifoldeb a'ch cymhwysedd proffesiynol
6. beth yw cam-drin domestig neu drais rhywiol, a pha mor gyffredin ydyw yn eich cymuned leol
7. arwyddion o gam-drin a'r dulliau y mae camdrinwyr yn eu defnyddio i ennill grym a rheolaeth
8. effaith cam-drin ar bawb y mae'n effeithio arnynt, gan gynnwys unigolion a dibynyddion
9. sut gall plant a dibynyddion gael eu defnyddio gan gamdrinwyr fel rhan o'u camdriniaeth
10. sut mae agweddau'n gysylltiedig â diwylliant, cymdeithas a rhywedd yn effeithio ar gam-drin domestig a thrais rhywiol
11. sut mae croestoriadedd yn effeithio ar brofiad unigolyn o wasanaethau
12. rôl asiantaethau a sefydliadau eraill sy'n darparu cymorth, gwasanaethau ac ymyriadau i fynd i'r afael â cham-drin domestig neu drais rhywiol yn eich ardal
13. trefniadau amlasiantaethol ar gyfer darparu cymorth ac ymyriadau i unigolion
14. ffynonellau gwybodaeth am gyflawnwyr rydych chi'n gweithio gyda nhw a sut i gael at y rhain
15. dulliau o wirio a chadarnhau gwybodaeth
16. sut i wahaniaethu rhwng tystiolaeth a welwyd yn uniongyrchol, tystiolaeth o ffynonellau dibynadwy ac adroddiadau ail-law
17. pwysigrwydd adnabod problemau posibl sydd gan y cyflawnydd sy'n cyfrannu at ei ymddygiad camdriniol a sut i fynd i'r afael â nhw
18. rhwystrau cyffredin i gyflawnwyr rhag newid a dulliau o oresgyn y rhain
19. pwysigrwydd helpu cyflawnwyr i ddeall effeithiau eu hymddygiad ar bobl eraill ac arnynt eu hunain
20. pwysigrwydd bod cyflawnwyr yn berchen ar y penderfyniadau a wnânt a'u bod

yn gyfrifol amdanynt

21. gwahanol ffyrdd o gynorthwyo cyflawnwyr i newid eu hymddygiad a pha mor effeithiol yw'r rhain
22. y mathau o ymyriadau sydd ar gael a'u manteision a'u hanfanteision cymharol
23. amgylchiadau pan ystyrir bod y cyflawnwyr yn bobl uchel eu risg
24. amgylchiadau uchel eu risg sy'n mynnu atgyfeirio i asiantaeth arall a sut i symud atgyfeiriad fel hyn yn ei flaen
25. yr ystod o arddulliau a thechnegau cyfathrebu sydd ar gael a phryd i'w defnyddio a'u haddasu
26. sut mae gwahanol ddiwylliannau yn defnyddio ac yn dehongli iaith y corff mewn ffyrdd gwahanol
27. rhwystrau cyffredin rhag cyfathrebu a ffyrdd o'u goresgyn
28. pwysigrwydd bod yn ymwybodol o'ch gwerthoedd a'ch credoau eich hun
29. sut i herio agweddau ac ymddygiad gwahaniaethol neu a allai fod yn niweidiol, a phwysigrwydd gwneud hynny
30. cyfyngiadau cyfrinachedd sy'n berthnasol wrth ddelio â chyflawnwyr
31. yr amgylchiadau pan fydd angen rhoi gwybod i eraill am gyflawnwyr, gan gynnwys pan fydd gennych bryderon am ddiogelwch pobl eraill oherwydd ymddygiad y cyflawnydd

## Geirfa